Theatr Genedlaethol Cymru

# Hysbysiad Preifatrwydd i Ymgeiswyr

## Beth yw pwrpas y ddogfen hon?

Mae Theatr Genedlaethol Cymru yn ‘rheolwr data’. Mae hyn yn golygu ein bod ni’n gyfrifol am benderfynu sut rydym yn cadw ac yn defnyddio gwybodaeth bersonol amdanoch chi. Rydych yn derbyn copi o’r datganiad preifatrwydd hwn oherwydd eich bod yn gwneud cais am waith gyda ni (p’un ai fel cyflogai, gweithiwr neu gontractiwr). Mae’r ddogfen yn eich gwneud yn ymwybodol o sut a pham y bydd eich data personol yn cael ei ddefnyddio, sef i bwrpas yr ymarferiad recriwtio, ac am ba hyd y bydd yn arferol yn cael ei gadw. Mae’n rhoi i chi beth gwybodaeth y mae’n rhaid ei darparu dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (*(EU) 2016/679*) (GDPR).

## Egwyddorion Diogelu Data

Byddwn yn cydymffurfio â deddfwriaeth ac egwyddorion diogelu data, sy’n golygu y bydd eich data:

• Yn cael ei ddefnyddio mewn dull cyfreithlon, teg a thryloyw.

• Yn cael ei gasglu’n unig i ddibenion dilys yr ydym wedi eu hesbonio’n glir i chi, ac ni chaiff ei ddefnyddio mewn modd sy’n anghydnaws â’r dibenion hyn.

• Yn berthnasol i’r dibenion rydym wedi dweud wrthych amdanynt, ac yn gyfyngedig i’r dibenion hynny’n unig.

• Yn gywir ac yn cael ei gadw’n gyfredol.

• Yn cael ei gadw’n unig am gyn hired ag y bo angen ar gyfer y dibenion rydym wedi sôn wrthych amdanynt.

• Yn cael ei gadw’n ddiogel.

## Y math o wybodaeth rydym yn ei chadw amdanoch chi

Mewn cysylltiad â’ch cais am waith gyda ni, byddwn yn casglu, cadw a defnyddio’r categorïau canlynol o wybodaeth bersonol amdanoch chi:

• Yr wybodaeth rydych wedi ei chynnwys ar ein ffurflen gais, yn cynnwys enw, teitl, cyfeiriad, rhif ffôn, cyfeiriad ebost personol, dyddiad geni, rhyw, cefndir cyflogaeth, cymwysterau, ac aelodaeth broffesiynol.

• Unrhyw wybodaeth rydych yn ei rhoi i ni mewn cyfweliad.

Mae’n bosibl y byddwn hefyd yn casglu, cadw a defnyddio’r ‘categorïau arbennig’ canlynol o wybodaeth bersonol sydd o natur mwy sensitif:

• Gwybodaeth am eich hil neu ethnigrwydd, credoau crefyddol, tueddfryd rhywiol a barn wleidyddol.

• Gwybodaeth am eich iechyd, yn cynnwys cofnodion am unrhyw gyflwr meddygol, iechyd a salwch.

• Gwybodaeth am euogfarnau troseddol a throseddau.

**Sut y caiff yr wybodaeth bersonol amdanoch ei chasglu?**

Rydym yn casglu gwybodaeth bersonol ynghylch ymgeiswyr o'r ffynonellau canlynol:

- Chi, yr ymgeisydd.
- Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yng nghyswllt euogfarnau troseddol.]
- Y rhai rydych wedi eu henwi i roi geirda i chi, y byddwn yn casglu data ganddynt yn y categorïau canlynol:
- Cyflog blaenorol
- Absenoldeb
- Achosion disgyblaeth

**Sut y byddwn yn defnyddio gwybodaeth amdanoch chi**

Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth bersonol rydym yn ei chasglu amdanoch chi i'r dibenion canlynol:

- I asesu eich sgiliau, cymwysterau ac addasrwydd ar gyfer y rôl.
- I gynnal gwiriadau cefndir, lle bo hynny'n berthnasol.
- I gyfathrebu â chi ynghylch y broses recriwtio.
- I gadw cofnodion sy'n gysylltiedig â'n prosesau cyflogi.
- I gydymffurfio â gofynion cyfreithiol neu reoleiddiol.

Y mae o fudd cyfreithlon i ni benderfynu p'un ai i'ch penodi chi i'r rôl gan y byddai'n fanteisiol i'n busnes i benodi rhywun i'r rôl honno.

Mae angen hefyd i ni brosesu eich gwybodaeth bersonol er mwyn penderfynu p'un ai i lunio cytundeb o gyflogaeth gyda chi ai peidio.

Ar ôl derbyn eich ffurflen gais, byddwn yn prosesu'r wybodaeth honno i benderfynu a ydych yn cwrdd â'r gofynion sylfaenol i gael eich gosod ar restr fer ar gyfer y rôl. Os ydych, byddwn wedyn yn penderfynu a yw eich cais yn ddigon cryf i ni eich gwahodd am gyfweliad. Os byddwn yn penderfynu eich galw am gyfweliad, byddwn yn defnyddio'r wybodaeth a roddwch i ni yn y cyfweliad i benderfynu p'un ai i gynnig y rôl i chi ai peidio. Os byddwn yn penderfynu cynnig y rôl i chi, byddwn wedyn yn gofyn am dystlythyron cyn cadarnhau eich penodiad, ac yn cynnal gwiriad cofnod troseddol os yn berthnasol.

**Os na fyddwch yn darparu gwybodaeth bersonol**

Os na fyddwch yn darparu gwybodaeth sy'n angenrheidiol i'n galluogi i ystyried eich cais pan ofynnir i chi wneud hynny (megis tystiolaeth o gymwysterau neu fanylion am eich gwaith hyd yma), ni fydd modd i ni brosesu eich cais yn llwyddiannus. Er enghraifft, os bydd angen i ni gael dystlythyrau ar gyfer y rôl hon, a chithau heb roi'r manylion perthnasol i ni, ni fydd modd i ni fynd â'ch cais ymhellach.

**Sut y byddwn yn defnyddio gwybodaeth bersonol sydd o natur arbennig o sensitif**

Byddwn yn defnyddio gwybodaeth bersonol sydd o natur arbennig o sensitif yn y dulliau canlynol:

• Byddwn yn defnyddio gwybodaeth am eich statws anabledd i ystyried a oes angen i ni ddarparu addasiadau priodol yn ystod y broses recriwtio, er enghraifft a oes angen gwneud addasiadau yn ystod prawf neu gyfweliad.

• Byddwn yn defnyddio gwybodaeth am eich hil neu darddiad ethnig neu genedlaethol, credoau crefyddol, athronyddol neu foesol, neu eich tueddfryd rhywiol, i sicrhau dulliau ystyrlon o fonitro ac adrodd yn ôl yng nghyd-destun cyfle cyfartal.

## Gwybodaeth ynghylch euogfarnau troseddol

Nid ydym yn rhagweld y byddwn yn prosesu gwybodaeth am euogfarnau troseddol.

## Dulliau awtomataidd o wneud penderfyniadau

Ni fyddwch yn amodol ar benderfyniadau a gaiff effaith sylweddol arnoch chi sy'n seiliedig yn unig ar ddulliau awtomataidd o wneud penderfyniadau.

## Rhannu Data

## Trydydd partïon?

Ni fyddwn yn rhannu eich gwybodaeth bersonol gyda thrydydd partïon at ddibenion prosesu eich cais.

## Diogelu Data

Rydym wedi sefydlu mesurau diogelwch priodol i arbed eich gwybodaeth bersonol rhag mynd ar goll yn ddamweiniol, ei defnyddio neu gael mynediad ati mewn dull anawdurdodedig, ei newid neu ei datgelu. Yn ogystal, rydym yn cyfyngu mynediad at eich gwybodaeth bersonol i'r personau hynny – cyflogeion, asiantau, contractwyr a thrydydd partïon eraill – sydd ag angen gwybod o safbwynt y busnes. Byddant yn prosesu eich gwybodaeth bersonol yn unig yn ôl y cyfarwyddiadau y byddwn ni'n eu rhoi iddynt, ac maent yn gweithredu'n amodol ar ddyletswydd o gyfrinachedd.

Rydym wedi sefydlu gweithdrefnau i ddelio ag unrhyw dor-diogeledd a amheuir, a byddwn yn rhoi gwybod i chi ac i unrhyw reoleiddiwr perthnasol o dor-diogeledd a amheuir, lle mae'n rhaid i ni wneud hynny dan y gyfraith.

**Cadw Data**

**Am ba hyd y byddwch yn defnyddio fy ngwybodaeth?**

Byddwn yn cadw eich gwybodaeth bersonol am gyfnod o 6 mis ar ôl i ni gyfleu i chi ein penderfyniad ynghylch eich penodi i'r rôl neu beidio. Byddwn yn cadw eich gwybodaeth bersonol am y cyfnod hwnnw fel bod modd i ni ddangos, petai hawliad cyfreithiol yn codi, nad ydym wedi gwahaniaethu yn erbyn ymgeiswyr ar seiliau a waherddir, a'n bod wedi ymgymryd â'r ymarferiad recriwtio mewn modd teg a thryloyw. Ar ôl y cyfnod hwn, byddwn yn gwaredu eich gwybodaeth bersonol mewn modd diogel, yn unol â'r deddfau a rheoliadau perthnasol.

Os dymunwn gadw eich gwybodaeth bersonol ar ffeil, ar y sail y gallai cyfle arall godi yn y dyfodol a gallem fod yn awyddus i'ch ystyried ar gyfer y cyfle hwnnw, byddwn yn ysgrifennu atoch ar wahân, gan ofyn am eich caniatâd penodol i gadw eich gwybodaeth bersonol am gyfnod penodedig ar y sail hwnnw.]

**Hawliau mynediad, cywiro, dileu a chyfyngu**

**Eich hawliau mewn perthynas â gwybodaeth bersonol**

Mewn rhai amgylchiadau, mae gennych hawl gyfreithiol i wneud y canlynol:

• **Gofyn am fynediad** at eich gwybodaeth bersonol (y cyfeirir ato'n gyffredinol fel 'cais goddrych data am fynediad'). Mae hyn yn eich galluogi i gael copi o'r wybodaeth bersonol rydym yn ei chadw amdanoch chi, ac i sicrhau ein bod yn ei phrosesu mewn dull cyfreithiol.

• **Gofyn am gywiro** gwybodaeth bersonol rydym yn ei chadw amdanoch chi. Bydd hyn yn eich galluogi i gywiro unrhyw wybodaeth anghyflawn neu anghywir rydym yn ei chadw amdanoch chi.

• **Gofyn am ddileu** eich gwybodaeth bersonol. Mae hyn yn eich galluogi i ofyn i ni ddileu neu dynnu allan unrhyw wybodaeth bersonol lle nad oes rheswm da i ni barhau i'w phrosesu. Mae gennych hawl hefyd i ofyn i ni ddileu neu dynnu'n ôl eich gwybodaeth bersonol lle rydych wedi ymarfer eich hawl i wrthwynebu ei phrosesu (gweler isod).

• **Gwrthwynebu prosesu** eich gwybodaeth bersonol lle rydym yn dibynnu ar ddiddordeb cyfreithlon (neu ddiddordebau trydydd parti), a bod rhywbeth ynghylch eich sefyllfa arbennig chi sy'n eich gwneud yn awyddus i wrthwynebu'r prosesu ar y sail yma. Mae gennych hefyd hawl i wrthwynebu pan fyddwn yn prosesu eich gwybodaeth bersonol i bwrpas marchnata uniongyrchol.

• **Gofyn am gyfyngu ar brosesu** eich gwybodaeth bersonol. Mae hyn yn eich galluogi i ofyn i ni ohirio'r dasg o brosesu gwybodaeth bersonol amdanoch chi, er enghraifft, os ydych am i ni sefydlu ei chywirdeb neu'r rheswm dros ei phrosesu.

• **Gofyn am drosglwyddo** eich gwybodaeth bersonol i barti arall.

Os byddwch am adolygu, gwirio, cywiro neu ofyn am ddileu eich gwybodaeth bersonol, neu wrthwynebu'r ffaith bod eich data personol yn cael ei brosesu, neu ofyn i ni drosglwyddo copi o'ch gwybodaeth bersonol i barti arall, dylech gysylltu'n ysgrifenedig â Chyfarwyddwr Gweithredol Theatr Genedlaethol Cymru.

**Yr hawl i dynnu caniatâd yn ôl**

Wrth wneud cais am y rôl hon, rydych yn rhoi caniatâd i ni brosesu eich gwybodaeth bersonol i ddibenion yr ymarferiad recriwtio. Mae gennych hawl ar unrhyw adeg i dynnu'n ôl eich caniatâd i brosesu'r wybodaeth i'r diben hwnnw. I dynnu eich caniatâd yn ôl, dylech gysylltu â Chyfarwyddwr Gweithredol Theatr Genedlaethol Cymru. Cyn gynted ag y byddwn wedi derbyn datganiad eich bod wedi tynnu eich caniatâd yn ôl, ni fyddwn yn prosesu eich cais ymhellach; yn ogystal, ac yn unol â'n polisi cadw, byddwn yn gwaredu eich data personol mewn modd diogel.

**Swyddog Diogelu Data**

Rydym wedi penodi reolwr preifatrwydd data, sef ein Cyfarwyddwr Gweithredol, i oruchwylio'r gwaith o gydymffurfio â'r datganiad preifatrwydd hwn. Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y datganiad preifatrwydd hwn, neu am y modd yr ydym yn trin eich gwybodaeth bersonol, dylech gysylltu â'r Cyfarwyddwr Gweithredol. Mae gennych hawl i gyflwyno cwyn ar unrhyw adeg i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), sef awdurdod goruchwyliol y Deyrnas Unedig ar fater diogelu data.